**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MD/RE/PO/327/2024

I holl aelodau'r Fforwm Economi Ymwelwyr

13 Tachwedd 2024

Annwyl Aelodau

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein hymrwymiadau i ddatblygu deddfwriaeth a fydd yn cefnogi twristiaeth a chymunedau lleol.

Hoffem ddiolch i chi a'r sector twristiaeth ehangach am yr adborth adeiladol a'r ymgysylltiad hyd yma wrth i ni ddatblygu'r rhaglen waith hon.

Disgwylir i'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) gael ei gyflwyno i'r Senedd ar 25 Tachwedd.

Bydd y Bil yn cynnig rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr, a fyddai'n dâl bach i bobl sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr yng Nghymru. Byddai'r ardoll yn codi arian ychwanegol i helpu i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor ein diwydiant twristiaeth. Bydd pob awdurdod lleol yn gallu penderfynu a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr yn ei ardal yn seiliedig ar ei amgylchiadau lleol.

Un o egwyddorion treth Llywodraeth Cymru yw y dylid datblygu ein trethi trwy gydweithio a chyfranogiad. Trwy ymgynghori, ymgysylltu parhaus a'r gwaith darganfod a arweinir gan Awdurdod Cyllid Cymru, rydym wedi cael adborth cyson bod angen math o gofrestru ar waith i gefnogi'r ardoll. Mae hyn wedi llywio ein penderfyniad i gynnwys cofrestr genedlaethol o bawb sy'n darparu llety i ymwelwyr yng Nghymru o fewn y bil ardoll.

Rydym eisoes wedi ymgynghori ar gynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru fel ffordd o helpu i sefydlu chwarae teg a sicrhau bod gan ymwelwyr hyder yn y safonau uchel sydd ar gael ledled Cymru. Y cynllun cofrestru a gynigir yn y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) yw'r cam cyntaf tuag at y cynllun hwnnw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth bellach i'n symud tuag at gynllun trwyddedu statudol a galluogi darparwyr llety ymwelwyr i ddangos sut mae eu llety yn bodloni amodau penodol.

Gyda'ch ymgysylltiad parhaus, byddwn yn parhau i drafod ymhellach gyda darparwyr llety a rhanddeiliaid twristiaeth eraill, wrth i ni fwrw ymlaen â'r cynigion hyn ar gyfer rheoleiddio llety ymwelwyr.

Byddwn yn cyhoeddi e-gylchlythyr Croeso Cymru yn rhannu cynnwys y llythyr hwn gyda'r sector ehangach. Bydd ein swyddogion mewn cysylltiad cyn bo hir gyda manylion am gyfleoedd ymgysylltu pellach i glywed am fanylion y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).

Yn gywir,

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning